Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Adroddiad ymchwil 127

Dyfodol cyllid ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol

Andrea Broughton, Monica Andriescu, Sara Rizzo

Ecorys UK

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE gyda Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion ar sut y dylai'r gronfa newydd hon weithredu.

Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn archwilio sut mae cronfeydd yr UE yn cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws Prydain Fawr ar hyn o bryd, a sut maent yn gweithredu'n ymarferol. Gwnaethom archwilio gwybodaeth am gronfeydd 'strwythurol' yr UE a chronfeydd anstrwythurol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu. I ychwanegu at yr adolygiad llenyddiaeth, fe wnaethom gyfweld 16 o arbenigwyr ariannu a rhanddeiliaid ledled Prydain.

Mae cronfeydd 'strwythurol' yr UE, gan gynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws holl wledydd yr UE. Nod ERDF yw mynd i'r afael ag anghydbwysedd economaidd rhwng rhanbarthau tra bod yr ESF yn canolbwyntio ar gyflogaeth ac addysg. Defnyddir yr ESF a'r ERDF i ddarparu cyllid i rai o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn y DU. O'r herwydd, mae ganddynt oblygiadau sylweddol i bobl â rhai nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, megis menywod, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl hŷn a phobl iau. Fodd bynnag, mae yna heriau gweithdrefnol gyda chronfeydd strwythurol yr UE a gall hyn weithiau danseilio effeithiolrwydd y cyllid hwn.

Ar gyfartaledd, mae'r DU yn derbyn €36 y pen y flwyddyn o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE (ESIF).[1] Mae hyn yn amrywio yn ôl rhanbarth a gwlad, fodd bynnag: mae'r cyllid yn cyfateb i lefelau amddifadedd cyffredinol, gydag ardaloedd llai datblygedig yn derbyn mwy o gyllid:

- Mae **Lloegr** yn derbyn €27 y person, y flwyddyn ar gyfartaledd mewn cyllid ESIF – mae cyfanswm o €4.8 biliwn yn uniongyrchol gysylltiedig â

[1] Cronfeydd ESI yw: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y Gronfa Cydlyniant, Cronfa Forwrol a Physgodfeydd Ewrop, a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

chydraddoldeb a hawliau dynol dros y cyfnod 2014-20. Y prif grwpiau targed yw pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), pobl 50 oed a throsodd, menywod, pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl â rhwystrau lluosog a chymhleth i gyflogaeth, a chyn-droseddwyr.

- Mae **Cymru** yn derbyn €140 y person y flwyddyn ar gyfartaledd – cyfanswm o thua € 3.5 biliwn dros y cyfnod 2014-20, ar y cyd â chyllid cyfatebol. Mae cyllid yr UE yn helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant ac yn cefnogi ymchwil ac arloesi yn y gymuned fusnes.
- Mae'r **Alban** yn derbyn €47 y person y flwyddyn ar gyfartaledd – cyfanswm o thua €1.1 biliwn dros y cyfnod 2014-20, ar y cyd â chyllid cyfatebol. Yn gyffredinol, bydd bron i hanner y cyllid yn mynd i fesurau cyflogaeth a mesurau cyflogaeth ieuenctid.

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi ystod eang o brosiectau sydd â goblygiadau i gydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol ym Mhrydain Fawr. Mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ar gefnogi pobl anabl, menywod a phobl o leiafrifoedd ethnig i ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y farchnad lafur. Bwriedir i eraill liniaru tlodi a chefnogi pobl ag anfanteision lluosog. Mae'r UE hefyd yn ariannu gwaith ym maes hawliau dynol.

Yn y cyd-destun hwn, mae ymrwymiad y Llywodraeth i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, mae diffyg manylion am swm, cwmpas, ffocws a gweithrediad arfaethedig yr SPF wedi golygu bod pryderon am ddyfodol cyllid ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yn parhau. Roedd y cyfweleion yn pryderu y byddai oedi dros dro neu derfynu cyllid yn llwyr ar ôl ymadawiad Prydain o'r UE ('Brexit') yn gwanhau'r sector gwirfoddol. Roedd cytundeb cyffredinol y byddai cyrff ariannu elusennol megis ymddiriedolaethau a sefydliadau yn ei chael yn anodd llenwi'r bwlch a grëwyd gan golli cronfeydd yr UE, pe na baent yn cael eu disodli'n ddigonol.

Cyfleoedd a heriau o'n blaenau

Mae gan gyfundrefn ariannu gyfredol yr UE lawer o gryfderau yr hoffem eu gweld yn cael eu hailadrodd yn yr SPF. Yn benodol, dyma un o'r unig ffynonellau o gyllid hirdymor, aml-flwyddyn ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda grwpiau ymylol ac ar gyfer sefydliadau bach, ar lawr gwlad.

Fodd bynnag, mae prosesau ariannu'r UE hefyd yn cyflwyno heriau ar ffurf proses ymgeisio hir a chymhleth, systemau monitro beichus a diffyg hyblygrwydd yng

ngweinyddiad y gronfa. Mae costau gweinyddu yn gwastraffu rhan sylweddol o gyllidebau prosiectau.

Yn sgil Brexit, dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod yr SPF yn adeiladu ar gryfderau cyfundrefn ariannu'r UE, tra'n mynd i'r afael â'r anawsterau a'r rhwystredigaethau y mae'n eu creu weithiau.

Er y bydd y Llywodraeth yn wynebu llawer o ofynion sy'n cystadlu wrth i ni adael yr UE, yn ein barn ni, lle bynnag y bo modd, dylid blaenoriaethu diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau. Ein hargymhellion yw bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn:

1) **sicrhau bod y cyllid sydd wedi bod ar gael hyd yn hyn yn aros yr un peth** o ran faint o gyllid sydd ar gael, y mathau o brosiectau a gefnogir a'r meini prawf cymhwyster. Dylai hyn gynnwys cronfeydd a gynlluniwyd i hyrwyddo peidio â gwahaniaethu a diogelu cydraddoldeb a hawliau'r unigolyn.

2) **osgoi oedi dros dro yn y cyllid pan ddaw'r rownd ariannu bresennol i ben yn 2020.** Mae hyn er mwyn diogelu prosiectau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn erbyn pwysau ariannol ‘ymyl clogwyn’, ac i atal prosiectau sy'n dibynnu'n fawr ar arian yr UE rhag cau.

3) **parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi cymunedau ar y cyrion drwy dargedu cyllid at grwpiau dan anfantais sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a grwpiau sydd mewn perygl.** Yn unol â hyn, dylid cynnal themâu trawsbynciol cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhyw. Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid ystyried anghenion yr holl grwpiau nodwedd gwarchodedig perthnasol wrth ddylunio'r cronfeydd newydd.

4) **cynnal cyllid a sefydlogrwydd tymor hir** i ddarparu'r gefnogaeth hanfodol, barhaus, i bobl sydd wedi'u hymyleiddio yn ddifrifol ac sy'n elwa fwyaf o ymgysylltiad ystyrlon am nifer o flynyddoedd.

5) **symleiddio prosesau** i leihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau, a lleihau dargyfeirio adnoddau oddi wrth gyflawni prosiectau. Dylai'r broses ymgeisio gael ei theilwra i anghenion sefydliadau llai.

6) **gwella hyblygrwydd cyllid** fel ei fod yn haws ac yn symlach i brosiectau:

    a. ddod o hyd i gyllid cyfatebol

b. symud cyllid o gwmpas o fewn rhaglenni
c. gwneud newidiadau i brosiectau ar ôl iddynt ddechrau, a
d. thalu am gostau cyffredinol a chostau craidd, sy'n arbennig o bwysig i sefydliadau llai.

7) **sicrhau bod cyllid a phenderfyniadau'n cael eu datganoli i'r lefel briodol**, gan roi ystyriaeth briodol i ddatganoli, lleoleiddio a thargedu cyllid – tra'n cefnogi strategaeth ar draws Prydain ar yr un pryd. Bydd hyn yn galluogi llywodraethau datganoledig ac awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer anghenion poblogaethau cenedlaethol a lleol.

8) **gwella casglu a monitro data ar nodweddion gwarchodedig a grwpiau sydd mewn perygl** fel y gall llywodraethau ac awdurdodau lleol eraill werthuso canlyniadau prosiectau yn briodol. Dylai gwerthuso ystyried barn grwpiau ar y cyrion ac ystyried sut y gellir gwella prosiectau yn y dyfodol. Rhaid dylunio gofynion a phrosesau casglu data mewn ffordd sy'n lleihau'r baich gweinyddol, a dylid neilltuo amser ac adnoddau digonol i alluogi monitro a gwerthuso o'r fath i ddigwydd.

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae cronfeydd strwythurol yr UE, gan gynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws holl wledydd yr UE. Nod yr ERDF yw mynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng rhanbarthau drwy brosiectau sy'n canolbwyntio ar fentrau bach a chanolig eu maint yn ogystal â'r agenda digidol a'r economi carbon isel.[2] Mae'r ESF yn canolbwyntio ar gyflogaeth ac addysg.[3] Mae yna gyfnod ariannu o saith mlynedd ac mae prosiectau fel arfer yn para rhwng tair a phedair blynedd.

Defnyddir yr ESF a'r ERDF i ddarparu cyllid i rai o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn y DU ac mae ganddynt oblygiadau sylweddol i bobl â rhai nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, megis menywod, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl hŷn a phobl iau. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE gyda Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF), ac nid yw'r manylion yn hysbys ar hyn o bryd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Llywodraeth yn dal i ymgynghori ar yr SPF.

1.2 Nodau'r ymchwil

Nodau'r ymchwil hwn yw:

- cael gwell dealltwriaeth o sut mae Cronfeydd yr UE yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol, i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, a dadansoddi cyllid ar lefel ranbarthol yn y tair gwlad hynny
- deall beth allai'r effaith economaidd a chymdeithasol fod ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol os nad yw'r cronfeydd hyn (cronfeydd strwythurol ac eraill

[2] https://ec.europa.eu/regional_policy/en/funding/erdf/ [agorwyd: Dydd Llun, 7 Ionawr 2019].
[3] https://ec.europa.eu/regional_policy/en/funding/social-fund/ [agorwyd: Dydd Llun, 7 Ionawr 2019].

sy'n berthnasol i gydraddoldeb a hawliau dynol) yn cael eu cynnal, yn ogystal â'r effaith ar gymdeithas sifil ehangach

- archwilio heriau gweithredu o fewn cyfundrefn ariannu gyfredol yr UE, a nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau yng nghyd-destun cyfundrefn ariannu yn y dyfodol, a
- datblygu blaenoriaethau a gwneud argymhellion ar Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU, yn seiliedig ar dystiolaeth o angen a dadansoddiad o sut y defnyddiwyd cyllid yn y gorffennol.

3.2 Cymru

Trosolwg

- Mae cyllid ESI sydd wedi'i dargedu at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn werth tua €3.5 biliwn yn y cyfnod 2014-20. Mae'r wlad yn derbyn €140 y person bob blwyddyn ar gyfartaledd o gronfeydd ESI. Mae hyn yn llawer uwch na'r Alban a Lloegr.

- Nod cyllid yr UE yw mynd i'r afael â thlodi, allgáu cymdeithasol a diweithdra mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Ymhlith y buddiolwyr mae menywod, pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl na chyfartaledd y DU (ONS, 2018).

- Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi ymchwil ac arloesi yn y gymuned fusnes. Ers 2014, mae cronfeydd yr UE wedi cynorthwyo tua 4,000 o fentrau ac wedi sefydlu dros 800 o rai newydd. Crëwyd 6,000 o swyddi, mae bron i 10,000 o bobl wedi cael cymorth i gael gwaith ac mae 50,000 o bobl wedi cael cymorth i ennill cymwysterau.

- Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei gategoreiddio gan yr UE fel rhanbarth llai datblygedig; mae ganddo'r gyfran uchaf o hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd ym Mhrydain (BIS, 2014). Mae mwy nag 80% o gyllid Ewropeaidd Cymru yn cael ei wario yn y rhan hon o'r wlad. Yn y cyfnod 2014-20, bydd arian yr UE o fudd i filoedd o bobl ar draws y rhanbarth hwn. Mae hyn yn cynnwys 75,000 o bobl ifanc a thua chwarter miliwn o bobl mewn cymunedau difreintiedig.

- Mae Dwyrain Cymru yn derbyn llai o gyllid ond mae'n dal i gael ei ystyried yn rhanbarth ‘pontio’ gan yr UE. Bydd cyllid yn cefnogi 36,000 o bobl ifanc a 3,500 o bobl anabl. Gweler ffigurau 3.5, 3.6 a 3.7 am ragor o fanylion.

- Derbyniodd Cymru tua €2.1 biliwn o gronfeydd yr UE yn ystod 2007–13, a arweiniodd at greu tua 37,000 o swyddi a 12,000 o fentrau.

Ffigur 3.5 Dosbarthiad Cymru: lefel datblygu ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE



Ffynhonnell: Comisiwn Ewropeaidd Mae datblygiad yn seiliedig ar CMC fesul person o'i gymharu â chyfartaledd yr UE. Dylid nodi y gall fod pocedi unigol o amddifadedd mewn rhanbarthau datblygedig.

Ffigur 3.6 Buddiolwyr cronfeydd strwythurol yr UE yn ôl nodweddion dethol – prosiectau gwirioneddol ar waith (Cymru) 2014–20



Mae lliwiau tywyllach yn dynodi mwy o fuddiolwyr. Cyfnod rhaglennu 2014–20
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Noder: Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Caiff y ffigurau hyn eu llunio trwy edrych ar brosiectau unigol a chyfrif nifer y cyfranogwyr cofrestredig. Mae rhai yn targedu pobl sy'n wynebu anfantais luosog ac felly nid yw'n bosibl asesu faint yn union o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol sy'n elwa o'r prosiectau hyn. Ymhellach, mae'n debyg bod y ffigurau gwirioneddol ar gyfer y categorïau hyn yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yma, gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer pob prosiect. Yn ogystal, bydd cyfrif dwbl posibl yn effeithio ar gyfansymiau, gan y gallai pobl fod yn elwa o wahanol fathau o brosiectau.

Ffigur 3.7 Lefelau buddsoddiad ESF ac ERDF yn ôl rhanbarth yng Nghymru 2014–20



Mae lliwiau tywyllach yn dynodi lefelau uwch o gyllid. Cyfnod rhaglennu 2014–20.
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Noder nad yw'r dadansoddiadau yn cyfateb i'r cyfanswm cyffredinol mewn llawer o achosion, wrth i'r ffigurau ESF ac ERDF ymwneud â phrosiectau a gymeradwywyd, tra bod y ffigur cyffredinol yn ymwneud â chronfeydd yr UE a ddyrannwyd i Gymru.

Cyfnod ariannu 2014–20

Mae cronfeydd strwythurol yr UE (ESF ac ERDF gyda'i gilydd) a chyllid cyfatebol ar fin cyrraedd cyfanswm buddsoddiad o dros £3 biliwn ledled Cymru yn ystod 2014–20 (Llywodraeth Cymru 2018).[4] Mae'r cyllid wedi'i fwriadu i gefnogi pobl ifanc i mewn i waith, gwella ymchwil ac arloesi, cefnogi busnesau bach, ehangu ynni gwyrdd a gwella ardaloedd trefol gwael.

Yn ystod rhaglen 2014–20, mae cronfeydd yr UE (ESF ac ERDF gyda'i gilydd) hyd yma wedi cynorthwyo tua 4,000 o fentrau ac wedi sefydlu dros 830 o rai newydd. Maent hefyd wedi creu dros 6,000 o swyddi, wedi cefnogi 9,600 o bobl i gael gwaith ac wedi helpu 49,800 o bobl i ennill cymwysterau (Llywodraeth Cymru 2018).

Bydd rhaglen ESF y Gorllewin a Gogledd Cymru a'r Cymoedd yn cyrraedd cyfanswm buddsoddiad o tua £1.1 biliwn dros y cyfnod ariannu presennol. Ei nod yw mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol trwy helpu pobl dan anfantais i ddatblygu eu sgiliau a dod o hyd i waith. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl ifanc, menywod a lleiafrifoedd yn y farchnad lafur (Llywodraeth Cymru 2014). Felly, disgwylir i sefydliadau a ariennir gan yr UE osod targedau priodol ar gyfer cyrraedd pobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu (Llywodraeth Cymru 2014).

Disgwylir i arian ESF yn Nwyrain Cymru gyrraedd cyfanswm buddsoddiad o tua £500 miliwn yn y cyfnod 2014–20. Mae yna ffocws penodol ar anghydraddoldeb rhyw yn y rhanbarth hwn. Nod cyllid yr UE yw mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gwella hyblygrwydd yn y gweithle, lleihau 'arwahanu galwedigaethol' (sy'n arwain at fenywod yn dominyddu galwedigaethau â chyflogau isel) a galluogi menywod i fynd i ddiwydiannau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion (Llywodraeth Cymru 2014b).

Cyfnod ariannu 2007-13

Derbyniodd Cymru tua £1.8 biliwn o'r UE yn ystod 2007–13. Wrth ystyried cyllid cyfatebol, gwariwyd tua £3.4 biliwn yng Nghymru yn y cyfnod hwn. Roedd y cyllid yn golygu roedd 234,000 o bobl yn gallu cael cymwysterau a 73,000 o bobl wedi dod o hyd i waith. Roedd y cyllid hefyd wedi creu 37,000 o swyddi a sefydlu 12,000 o fentrau (Llywodraeth Cymru 2014a). Cefnogwyd bron i 300 o brosiectau cysylltiedig â chyflogaeth ledled Cymru, gan arwain at ddarparu 33,000 o brentisiaethau a 12,000 o hyfforddeiaethau. Crëwyd 15,000 o swyddi ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed ledled Cymru. Cafodd prosiectau a ariannwyd gan ESF eu targedu'n benodol at leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a menywod (WEFO 2017).

[4] Dogfennaeth llywodraeth Cymru a ddyfynnir mewn punnoedd sterling.

Astudiaethau achos

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau a ariennir gan yr UE yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn cefnogi ystod o grwpiau a chymunedau. Mae'r astudiaethau achos llawn i'w gweld yn yr atodiad.

Pobl ifanc

Mae Rhaglen Iau yr Academi Amaeth yn ysbrydoli pobl 16 i 19 oed i ystyried gyrfa yn y diwydiant bwyd a ffermio. Mae cyfranogwyr yn derbyn hyfforddiant yn y cyfryngau, mentora, cyfleoedd rhwydweithio a help gyda datblygiad personol.

Lleiafrifoedd ethnig

Mae'r rhaglen Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth (ACE) yn helpu pobl o leiafrifoedd ethnig a mudwyr i ddatblygu eu sgiliau (gan gynnwys sgiliau iaith) a dod o hyd i gyflogaeth. Dywedodd un o reolwyr achos y prosiect, 'Rwy'n gwybod eu bod wedi bod yn nerfus ynglŷn â derbyn cymorth gan elusen fel ni, ond maen nhw wedi dweud eu bod wedi cael profiad mor dda… mae'n teimlo'n dda iawn eu bod yn gwybod os oes angen iddynt ddod o hyd i waith eto yn y dyfodol [diolch i ni] byddant yn gwybod beth i'w wneud'.

Pobl anabl

Cefnogir y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac mae'n darparu cymorth ariannol i amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ddi-waith. Ei nod yw lleihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl. Bydd y rownd ariannu diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn gweld £3.5 miliwn wedi'i ddyrannu i 25 o sefydliadau ledled Cymru. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys hyfforddiant, lleoliadau gwaith a gweithgareddau adeiladu hyder.

Menywod

Mae prosiect Cenedl Hyblyg 2 yn gweithredu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac mae'n cynnig arweiniad a hyfforddiant gyrfa i fenywod anabl a menywod sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, sy'n aml yn ei chael yn anodd symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae cyllid ESF wedi cyfrannu tua €9 miliwn i'r prosiect hwn. Amcangyfrifir bod y prosiect wedi helpu 6,000 o fenywod a rhwng 800 a 900 o fusnesau.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o'n gwefan.

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gael un o'n cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.

Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau agor	09:00 i 19:00 (Llun i Gwener)
	10:00 i 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2019

ISBN: 978-1-84206-787-1